

**Cofnodion Cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Tachwedd
15fed 2017 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 15th
November 2017 at 7.30pm**

1. Presennol/Present - Cyngorwyr Rhian Hughes (Cadeirydd/ *Chairperson*), Hanna Elin Baguley, Barbara Williams, Miriam Williams, Alwena Roberts, Geraint Parry (Clerc/Clerk) a Cyng. Carwyn Jones.

2. Ymddiheuriadau/Apologies - Cyng. Myrddin Roberts, Lorna Williams, Maldwyn Williams, Lewis Davies a Alun Roberts.

Nodyn / Note – Cyng. Beth Williams wedi penderfynu sefyll lawr fel Cyngorydd oherwydd ymrwymadau gwaith / *Clr. Beth Williams has decided to stand down as Councillor due to work commitments*

Nodyn / Note – hefyd yn presennol - aelodau pwyllgor y Neuadd a PCSO C Gilford / *also in attendace – members of the Village Hall Committee and PCSO C Gilford*

Nodyn / Note – Cyng. Carwyn Jones yn cadael y cyfarfod 9 o'r gloch / *Clr. Carwyn Jones left the meeting at 9pm*

3. Datgan Ddiddordeb/Declaration of interest

- Eitem / Item 8.0 - Cyng. Miriam Williams, Rhian Hughes a Hanna Elin Baguley yn datgan diddordeb oherwydd ei bod yn aelodau o Pwyllgor y Neuadd / *Clr. Miriam Williams a Hanna Elin Baguley declare an interest in that they are members of the Village Hall committee*
- Eitem / Item 13.1 - Cyng. Rhian Hughes yn datgan diddordeb – aelod o pwyllgor Henoed Llanddona / *Clr. Rhian Hughes declared an interest – member of the Llanddona Elderly Committee*
- Eitem / item 5.4 - Cyng. M Williams yn datgan diddordeb oherwydd ei bod yn berchen y Gilfach drws nesaf / *Clr. Miriam Williams declared an interest because she owns the Gilfach next door*

4. Cofnodion/Minutes – Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Hydref fel rhai cywir gan Alwena Roberts, eilwyd gan Barbara Williams / *Minutes of the previous meeting held on 15th October were accepted as accurate by Alwena Roberts, seconded by Barbara Williams.*

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

- 5.1 **Diffibrilwyr / Defibrillator** – Cyng. R Hughes i drefnu pwrcasu cabinet trwy'r Grant Seiriol / *Clr. R Hughes to arrange purchase a cabinet via the Seiriol Grant*
- 5.2 **Cae Chwarae Plant / Children's Playing Field** – contractwr wedi bod yn ôl ar y safle i gywiro'r gwaith / *Contractor has been back on site to correct the work.*
- 5.3 **Lôn Hafoty a thyllau ar lonydd lleol / Hafoty Road and holes on local roads** – pwysleiswyd i Cyng. Carwyn Jones fod y gwaith atgyweirio diweddar yn anghyflawn ac yn anfodhaol / *It was emphasised to Clr. Carwyn Jones that the recent repairs was incomplete and unsatisfactory.*
- 5.4 **Llwybr Tai Bach / Tai Bach Footpath** - Mae'r Cyngor wedi gwrthod cais ol-weithredol am bibellu'r ffos. Bydd rhaid iddi gael ei ail agor. Gofynwyd pa bryd bydd ffens boddhaol yn cael ei osod? / *The County County has rejected a retrospective application for the pipe the ditch. It will have to be reopened. It was asked when a satisfactory fence will be installed?*
- 5.5 **Llwybrau / Footpaths - Tŷ Newydd** – dim newyddion bellach. **Tan Fynwent** - mae'r Cyngor Sir wedi torri'r llwybr troed. / **Tŷ Newydd** – no further information. **Tan Fynwent** - the County Council has cut the footpath.
- 5.6 **Llysiâu'r Dial / Japanese Knotweed** - Yn anffodus, mae'n rhy hwyr nawr i gael gwared ar y planhigyn yma. Nodwyd y bydd Prosiect Cwlwm Seiriol yn cynnig hyfforddiant ar sut a phryd i gael gwared â'r math hwn o blanhigyn / *Unfortunately it is too late now to remove this plant. It was noted that the Cwlwm Seiriol Project will offer training as to how and when to remove this type of plant*

6. Adroddiad gan y Cyngorydd Sir/Report by the County Councillor

- 6.1 Esboniodd fod ganddo rôl ychwanegol bellach fel aelod Porffolio ar gyfer Datblygu Economaidd ac yn aelod o'r Pwyllgor gwaith. / Explained that he now has an additional role as a Portfolio Holder for Economic Development and a member of the Executive committee

- 6.2 Mae'r Cyngor Sir yn ymgynhori ar eu cynigion cyllideb ar gyfer 2018/19 gyda dyddiad cau ar 29/12/17 / *The County Council is consulting on their budget proposals for 2018/19 with a closing date of 29/12/17*
- 6.3 Tŷ Pren ger Sŵn y Môr - wedi adrodd hyn i'r Swyddog Gorfodaeth. Gydag un swyddog yn unig yn y rôl, bydd yn anodd gorfodi materion fel hyn / *Wooden Chalet by Swn y Môr - have reported this to the Enforcement Officer. With only one officer in the role, matters like this will be difficult to enforce.*
- 6.4 Llyfrgell Biwmares – gweithio gyda'r Ganolfan Hamdden gyda'r posibilrwydd o gymryd drosodd y gwasanaeth / *Beaumaris Library - working with the Leisure Centre with the possibility of taking over the service.*
- 6.5 Mae Cyngor Dref Biwmares yn ystyried cymryd drosodd y Carchar a'r Llys / *Beaumaris Town Council are looking at taking over the Jail and the Court House*
- 6.6 Unedau Tai Cymdeithasol yn cael eu hadeiladu yn Llansadwrn / *Social Housing units being built in Llansadwrn*

7. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications

- 22C225A/VAR – Brookfield, Llanddona – cais o dan adran 73 i ddiwgio amod (02) (14) o caniatad cynllunio rhif 22C225 (cais llawn ar gyfer codi annedd) er mwyn newid y to ac ychwanegu balconi – dim gwrthwynebiad / *Application under section 73 for the variation of condition (02) (14) of planning permission 22C225 (Full application for the erection of a dwelling) so as to allow change to roof material and the inclusion of a balcony – no objection*

8. Hen Ysgol / Old Primary School

- 8.1 Derbyniwyd cyflwyniad gan aelodau pwyllgor Neuadd y Pentref ynghylch y newyddion diweddaraf eu bod wedi derbyn yr arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn prynu'r Hen Ysgol a gwneud rhai gwelliannau. / *Received a presentation from members of the Village Hall committee regarding the latest news that they have been awarded the funding from the Welsh Government in order to purchase the Old School and to carry out certain improvements.*
- 8.2 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r tir mae'r Cyngor Sir yn dymuno ei gynnwys wrth werthu'r Ysgol. Nid yw'r holl dir yma o ddi-ddordeb i Pwyllgor y Neuadd, ond ôl troed yr Ysgol yn unig. O ganlyniad, mae'r Cyngor Sir wedi cyflwyno cais i Swyddfa Gofrestru Tir i gofrestru budd rhydd-ddaliad yr ôl troed. Nodwyd bod dryswch dal i fodoli gyda grym y tir o gwmpas yr Ysgol. Yn dilyn trafodaeth bellach penderfynwyd i peidio a gwrthwynebu'r cais gan y Cyngor Sir gan y gallai hyn rwystro gwerthu yr Ysgol a disgwyl canlyniad y chwiliadau / *Discussion took place regarding the land that the County Council wish to include in the sale of the school. Not all of this land is of interest to the Village Hall Committee only the school footprint. Consequently the County Council have submitted an application to the Land Registry Office to register the freehold interest of the footprint. It was noted that confusion still exists with the ownership of the land around the School. Following further discussion it was decided not to oppose the application by the County Council as this might hinder the sale of the School and await the result of the searches.*
- 8.3 Mae'r Cyngor Sir wedi torri coed ger mynedfa i'r maes chwarae / *The County Council have cut the trees by the entrance to the playground.*

9. Tir Comin/Common Land

- 9.1 **Comin Llaniestyn / Llaniestyn Common Land (01/17) – Ty'n Ben** - mae ffrind perchennog Tŷ Ben wedi bod mewn cysylltiad a bydd yn trefnu cyfreithiwr. **Difrod i Dir Comin** - Disgwyl gwybodaeth bellach oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn destun pryder mawr i'r Cyngor Cymuned mewn perthynas â diogelwch i blant / **Tŷ'n Ben** -*Friend of the owner of Tŷ Ben has been in touch and will arrange a solicitor. Damage to Common Land - Awaiting further communication from from Natural Resources Wales. This is a major concern to the Community Council in respect of safety to children*
- 9.2 Tir Comin ger 1 Pensarn / *Common Land by 1 Pensarn* – derbyniwyd cais bellach gan y prynwr gan ofyn am ddau le parcio ychwanegol a hawddfaint i'r gwasanaethau. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd yn unfrydol nad oedd digon o le ar gyfer dau gerbyd ychwanegol, gan y gallent atal mynediad i'r llwybr cyhoeddus gerllaw a mynediad i Llwyn Collen. Dim gwrthwynebiad am hawddfaint i wasanaethau / *Received a request from the purchaser for an additional two car parking spaces and easement to the services. Following deliberation, it was unanimously decided that there was insufficient spaces for the additional two vehicles, in that they could block access to the public footpath nearby and access to Llwyn Collen. No objection to the easement for services.*

- 9.3 Tir comin ger Tre Gof – Clerc wedi egluro'r rheswm dros y cais i gael gwared a'r cerrig ar y tir comin i deiliad y ty. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gofyn i contractwr gael gwared ar cerrig. / *Common land by Tre Gof - Clerk has explained the reason for the request to remove the stones on the common land to the householder. Following deliberation it was decided to ask a contractor to remove the stones.*
- 9.4 Difrod gan gwmni Hogan i dir Comin Llaniestyn, mae'r Cadeirydd wedi atgoffa Hogans ynglyn ar gwaith / *Damage by Hogan's to the Common Llaniestyn, Chairperson has reminded Hogans regarding the work.*

10. Gofal Ychwanegol / Extra Care

Cawsom gyflwyniad gan Alwyn R Jones (Pennaeth Gwasanaeth Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn) am y Cynllun Gofal Ychwanegol ar gyfer Ward Seiriol, gan adnabod safle Ysgol Biwmares i ddatblygu lleiafswm o 39 o fflatiau hunangynhwysol. Mae'r Cyngor Sir wedi dechrau ymgynhoriad cyhoeddus gyda trigolion lleol, sy'n agored tan 18/12/17. Cyngor Sir i trefnu sesiynau lleol i egluro'r prosiect. Gwelwyd hefyd y prosiect a gwblhawyd yng Nghae Garnedd Bangor. / *Alwyn R Jones - Head of Adults Services (Anglesey County Council) gave a presentation about the proposed Extra Care Scheme for the Seiriol Ward, identifying the Beaumaris School site for developing a minimum of 39 self contained flats. The County Council has begun a public consultation to engage with local people, closing at 18/12/17. County Council to arrange local sessions in order to explain the project. We also saw the completed project at Cae Garnedd Bangor.*

11. Cyfrifon / Accounts

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- Royal British Legion - Torch / *Wreath* - £17.00
- Pwyllgor yr Henoed Llanddona / *LLanddona Elderly Committee* - £200.00
- MacVenture - £1,104.00
- *Gwerth asedau sefydlog – Clerc i drafod y mater gyda'n darparwr Yswiriant newydd / Value of fixed assets - Clerk to discuss the matter with our new Insurance provider*

12. Gohebiaeth / Correspondence

- *Llythyr / Letter – gyfraniad Eglwysi / Church contribution*
- *Swyddfa Cofrestru - Hen Ysgol / Land Registry – Old School*
- *Cyngor Sir – Cod Ymddygiad / County Council – Code of Conduct*
- *Arolwg Etholaethau Seneddol 2018 / Review of Parliamentary Constituencies 2018*

13. UFA/AOB:

- 13.1 PSCO C Gilford - trafodwyd gwrthgymdeithasol diweddar a'r difrod i'r Hen Ysgol / *discussed the recent ASB behavior and damage to the Old School*
- 13.2 Penderfynwyd hysbysebu'r gwaith cynnal a chadw'r Fynwent Newydd. / *It was decided to advertise the maintenance work for the new cemetery.*
- 13.3 Ffermwyr Ifanc – dim gwybodaeth bellach ynglyn a'u cais / *Young Farmers - no further information regarding their request*
- 13.4 Derbyniwyd cais gan y Cyngor Sir ynghylch pwy oedd perchennog tir yn wern y Wylan gyda changhennau'n tyfu drosodd i'r ffordd. Clerc i gynhori / *Received a request from the County Council as to who was the owner of the land at Wern y Wylan with branches overgrowing into to the road. Clerk to advise*
- 13.5 Cyfarfod Fforwm Cyngor tref a Chymuned 21/11/17 am 7 o'r gloch yn siambr y Cyngor / *Town and Community Council Forum meeting on 21/11/17 at 7pm in the Council Chamber*
- 13.6 Panel Adolygu Annibynnol – adroddod y Clerc fod y panel yn edrych ar wneud taliad o £150 am gostau a threuliau. Cynghorwyr i ymateb i'r cylchlythyr / *Independent Review Panel - Clerk reported that the panel are looking at making a £150 payment for costs and expenses. Councillors to respond to the circular*

14. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9:30 o'r gloch. Cyfarfod nesaf ar 20/12/17 am 7.30 yn Capel Peniel. *There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9:30pm. Next meeting to be held on 20/12/17 at 7.30pm in Peniel Chapel.*

Llofnod y Cadeirydd – Rhian Hughes

Dyddiad